



Yr Uned Wenyn Genedlaethol

Glanhau a Sterileiddio Cychod Gwenyn

Ionawr 2022

Mae nythfeydd gwenyn mêl yn agored i gael eu heintio neu eu heigio gan amrywiaeth o blâu a chlefydau. Ymhlith y rhain mae trychfilod, gwiddon, ffyngau, feirysau a bacteria, megis y microbau sy'n achosi clefyd Americanaidd neu Ewropeaidd y Gwenyn (*Paenibacillus larvae* a *Melissococcus plutonius*). Trychfilod cymdeithasol yw gwenyn mêl ac maent mewn perygl o brofi epidemigau, felly mae'n hanfodol bod gwenynwyr nid yn unig yn adnabod arwyddion plâu a chlefydau o'r fath, ond eu bod hefyd yn gwybod sut i leihau eu heffaith ar nythfeydd, gwenynfeydd a'r ardal leol. Un ffactor allweddol yn y gwaith o atal haint rhag lledaenu yw hylendid da. Mae'r Daflen Ffeithiau ganlynol yn rhoi rhywfaint o gyngor ynglŷn â phryd a sut y dylech lanhau eich cychod gwenyn a'ch cyfarpar.

Dylech fod yn ymwybodol y gall glanhau a sterileiddio eich cychod gwenyn a'ch cyfarpar fod yn waith corfforol caled. Bydd angen i chi sicrhau bod yr holl offer a chyfarpar angenrheidiol gennych yn barod ar gyfer y dasg cyn i chi ddechrau arni. Hefyd, bydd angen bod gennych ddillad diogelu priodol, gan gynnwys cyfarpar diogelu'r llygaid, menig diddos cryf, esgidiau blaen dur ac ati. Os oes modd, dylech drefnu i rywun eich helpu ar y diwrnod. Un lle da i gael cymorth a chefnogaeth yw eich cymdeithas wenyndda leol. Noder **nad yw pob triniaeth a restrir isod yn effeithiol rhag sborau clefyd y gwenyn** a chofiwch y gallai pob un ohonynt fod yn niweidiol i iechyd pobl. Wrth ddefnyddio cemegion, dylech bob amser ddarllen y rhagofalon ar label y gwneuthurwr a rhoi mesurau diogelu addas ar waith, yn enwedig pan fyddwch yn gweithio â thân.

Pryd y dylech lanhau a sterileiddio eich cyfarpar gwenyn?

Mae'n arfer dda glanhau a sterileiddio cyfarpar gwenyn:

- Pan fyddwch yn dod ag ef i mewn o'r maes i'w storio (e.e. ar ddiwedd y tymor) neu cyn ei aildefnyddio.
- Pan fydd eich nythfeydd wedi profi haint neu bla.
- Cyn defnyddio/aildefnyddio cychod gwenyn sbâr neu wag, yn enwedig unrhyw eitemau ail-law.

- Wrth aildefnyddio unrhyw eitemau a all fod wedi dod i gysylltiad â haint clefyd y gwenyn.
- Pryd bynnag y bydd angen symud eitemau rhwng nythfeydd.
- Gall hyd yn oed nythfeydd iach yr olwg gynnwys organebau sy'n achosi clefydau. Gall y bacteriwm sy'n gyfrifol am glefyd Ewropeaidd y gwenyn a'r bacteriwm sy'n ffurfio sborau sy'n achosi clefyd Americanaidd y gwenyn fodoli yng nghrwybrau nythfa am gyfnodau hir, gan barhau i allu datblygu clefydau. Felly, mae'n bwysig cynnal safonau hylendid da drwy'r amser, hyd yn oed pan na fydd yn amlwg bod plâu a phathogenau yn bresennol mewn gwenynfa. Dylech osod sylfaen newydd neu grwybrau newydd eu tynnu yn lle hen grwybrau magu yn rheolaidd, a llosgi neu doddi hen grwybrau.
- Dylech bob amser lanhau offer cwch gwenyn rhwng archwiliadau gan ddefnyddio hydoddiant soda golchi. Mae'n bwysig cofio na fydd hi bob amser yn ymarferol nac yn ddiogel glanhau, diheintio ac aildefnyddio cyfarpar gwenynfa ar ôl iddo gael ei halogi, neu os yw'n rhy hen a/neu wedi'i ddifrodi ormod i allu gwrthsefyll triniaeth drwyadl ond angenrheidiol.
- Caiff dulliau dinistrio eu hamlinellu mewn adran ar wahân, isod. Bydd eich Arolygydd Gwenyn lleol yn eich helpu a'ch cynghori mewn perthynas â chychod gwenyn a nythfeydd sydd wedi'u heintio â chlefyd Americanaidd y gwenyn a chlefyd Ewropeaidd y gwenyn, sy'n glefydau hysbysadwy.

Glanhau a diheintio cychod gwenyn pren

Dylech ddatgymalu'r cwch gwenyn ac, os oes modd, dylech osod yr holl rannau mewn rhewgist ddomestig (-20°C) am o leiaf 48 awr cyn eu glanhau. Bydd hyn yn lladd plâu trychfilod, fel gwyfynod cŵyr. Wedyn, rhowch y rhannau ar ddalennau o gardfwrdd neu bapur newydd y tu mewn i do wedi'i droi â'i ben i lawr er mwyn dal unrhyw weddillion a ddaw'n rhydd wrth i chi weithio. Dechreuwch drwy grafu'r blychau mor drwyadl â phosibl, gan ddefnyddio sgrafell paent, offeryn cwch gwenyn neu offeryn addas arall, i gael gwared ar unrhyw grwybr cŵyr neu lud gwenyn sydd wedi'i lynu'n sownd.

Byddwch yn arbennig o ofalus wrth lanhau corneli mewnol y blychau a rhedwyr y fframiau, gan fod y rhain yn cynnig cilfachau delfrydol i blâu a phathogenau. Efallai yr hoffech ystyried cael gwared ar redwyr fframiau "brwnt" yn gyfan gwbl a gosod rhai metel newydd yn eu lle pan fyddwch yn rhoi'r cwch gwenyn yn ôl at ei gilydd ar ôl ei ddiheintio. Os ydych yn bwriadu sterileiddio eich cyfarpar drwy losgi (gweler isod), cofiwch dynnu pob rhedwr plastig. Yn ystod y broses o grafu, bydd darnau o gŵyr a glud gwenyn yn cwmpo ar eich dalennau cardfwrdd neu bapur newydd, a dylech ddinistrio'r cyfan wedyn drwy losgi ar ôl i chi gwblhau'r rhan hon o'r broses lanhau. Bydd hefyd angen i chi lanhau eich sgrafell cyn ei chadw.

Pan na fydd baw i'w weld ar ddarnau pren y cwch gwenyn, gellir eu sterileiddio i ladd germau. Gallwch wneud hyn mewn sawl ffordd wahanol:

Llosgi â lamp losgi neu dynnwr paent trydan a ddelir â llaw

Mae Ffig. 1 isod yn dangos enghraifft o losgi blwch magu â lamp losgi i ladd germau ar yr wyneb. Wrth wneud hyn, defnyddiwch flaen y 'fflam las' yng nghanol y fflam fwy a gwnewch yn siŵr bod unrhyw lud gwenyn sy'n weddill yn berwi. Hefyd, sicrhewch fod y pren yn tywyllu ac yn troi'r un lliw brown fel coffi, sy'n arwydd bod y pren wedi cael ei wresogi i dymheredd digonol ac am ddigon o amser i fod wedi'i sterileiddio'n iawn. Ni fydd angen llosgi'r pren, ond byddwch yn arbennig o drylwyr yn y corneli.



Ffig. 1: Ilosgi blwch magu â lamp losgi

Glanhau gan ddefnyddio crisialau soda golchi

Gellir glanhau offer a chyfarpar gwenyna (e.e. mygwyr ac offer cwch gwenyn) gan ddefnyddio hydoddiant o grisialau soda golchi (sodiwm carbonad) sydd ar gael yn hawdd ac yn rhad. Gellir creu'r hydoddiant drwy gymysgu 1kg o soda golchi â 5 litr o ddŵr cynnes a diferyn o hylif golchi dwylo er mwyn helpu i godi'r glud gwenyn. Trochwch y cyfarpar yn yr hydoddiant, gan ddefnyddio brwsh gwifrau neu offeryn tebyg, i sgrwbio gwaddod i ffwrdd nes bod yr offer yn lân.

Gellir sterileiddio fframiau mewn modd tebyg hefyd. Gosodwch ychydig o bapur newydd ar yr arwyneb lle y byddwch yn gweithio. Crafwch yr holl fframiau mor drylwyr â phosibl fel bod unrhyw lud gwenyn neu gŵyr dros ben yn cwmpo ar y papur newydd oddi tanodd; gellir llosgi hwn pan fyddwch wedi gorffen. Paratowch gymysgedd o hydoddiant soda (1:5) mewn cynhwysydd megis boeler dŵr diwydiannol (e.e. boeler Burco) sy'n ddigon mawr i ddal fframiau mêl a chodwch y dŵr i'r berw. Wedyn, soddwch eich fframiau yn yr hydoddiant soda berw am funud neu nes bod y ffrâm yn lân ac nad oes cŵyr na glud gwenyn ar ôl arni. Bydd sgrwbio â brwsh corddi o gymorth yma. Tynnwch y fframiau o'r hydoddiant soda, rhowch ddŵr drostynt i gael gwared ar unrhyw sodiwm carbonad sy'n weddill ac yna gadewch nhw i sychu.

D.S. Nid yw'r dull hwn yn addas ar gyfer sterileiddio rhag clefyd Americanaidd y gwenyn.

Swmp-lanhau rhannau pren cychod gwenyn mewn soda golchi



Ffig. 3: sicrhewch eich bod yn gwisgo dillad diogelu priodol, megis menig rwber trwchus a goglau diogelwch. Trochwch y fframiau yn yr hydoddiant soda berw am 1 i 2 funud.



Ffig. 4: pan fydd y cyfarpar yn lân, gellir rhoi dŵr drosto a'i adael i sychu, yn barod i'w aildefnyddio.

Gellir glanhau cyfarpar ychwanegol, megis blychau mêl a blychau magu, atalwyr brenhines a byrddau gorchudd mewn hydoddiant soda mewn ffordd debyg.

Sterileiddio cemegol gan ddefnyddio diheintyddion

Gellir sterileiddio blychau magu, lloffydd mêl a chyfarpar gwenyna arall yn effeithiol gan ddefnyddio diheintyddion sy'n cynnwys hypoclorit. Mae sodiwm hypoclorit yn bresennol ar grynodiad o tua 3% mewn cannydd cartref. Mae gwaith ymchwil wedi dangos bod trochi am 20 munud mewn hydoddiant sodiwm hypoclorit 0.5% yn lladd sborau clefyd Americanaidd y gwenyn a bacteria eraill. Os byddwch yn gwneud hyn, bydd angen i chi wneud hydoddiant sy'n cynnwys un rhan o gannydd cartref i bum rhan o ddŵr. Mae'n hanfodol bod y sborau'n dod i gysylltiad â'r hydoddiant, felly rhaid i unrhyw eitemau a gaiff eu trochi gael eu glanhau'n drylwyr gan ddefnyddio'r dulliau uchod yn gyntaf. I ddiheintio un neu ddau flwch, gellid defnyddio hambwrdd addas (fel un a ddefnyddir i blannu blodau) a thrin pob wal yn unigol, cyn cylchdroi'r hambwrdd i drin y waliau priodol. Ar gyfer cyfarpar mwy niferus, bydd angen cafn dyfnach. Ar ôl trochi'r cyfarpar mewn cannydd, cofiwch roi dŵr drosto. Mae astudiaethau labordy a gynhaliwyd yn Fera Science Limited (Fera) yn awgrymu y gall diheintyddion cemegol eraill fod yn ddefnyddiol ar gyfer sterileiddio cyffredinol, ond bydd angen cynnal profion pellach i sicrhau bod y rhain yn effeithiol rhag haint clefyd y gwenyn, yn enwedig sborau clefyd Americanaidd y gwenyn. Wrth ddefnyddio'r system hon, **rhaid i chi wisgo dillad diogelu addas, diogelu eich llygaid a defnyddio menig rwber.**

Sterileiddio cemegol ag asid asetic

Gellir sterileiddio crwybrau i ddinistrio'r sborau *chalkbrood*, gwyfynod cŵyr a chlefyd *Nosema spp.* mewn gwenyn llawndwf gan ddefnyddio mygdarth anwedd o asid asetic. **Nid oes tystiolaeth bod y driniaeth hon yn effeithiol rhag clefyd Americanaidd y gwenyn na chlefyd Ewropeaidd y gwenyn.** Gellir cael asid asetic gan gyflenwyr cemegol ac ar-lein. Dechreuwch y driniaeth drwy bentyrru'r blychau magu a/neu lloffydd mêl sy'n cynnwys crwybrau i'w sterileiddio ar arwyneb solet fel bwrdd neu lawr caled cwch gwenyn. Noder bod asid asetic yn grydol ac y bydd yn ymosod ar fetel a choncrit. Bydd rhoi faselín ar redwyr metel yn helpu i'w diogelu. Mae hefyd yn bwysig cau mynedfeydd cwch gwenyn, gan fod mygdarth asid asetic yn fwy dwys nag aer ac y bydd yn teithio o'r brif i waelod y pentwr, gan ddianc drwy unrhyw gylchau neu dyllau yn y gwaelod. Rhowch ddysgl anfetelaidd (soser neu gynhwysydd tebyg) ar ben fframiau'r blwch uchaf. Yn ofalus iawn, rhowch asid asetic 80% yn y ddysgl, gan ganiatáu 120 ml o asid asetic i bob blwch (e.e. byddai 600 ml yn trin pum blwch). Wedyn, rhowch flwch cwch gwenyn gwag ar ben y pentwr. Caewch y blwch gwag ar ben y pentwr â chaead cwch gwenyn. Seliwch unrhyw uniadau rhwng y blychau â thâp adlynol llydan er mwyn atal mygdarth rhag dianc. Gadewch y pentwr am tua wythnos er mwyn sicrhau y caiff ei fygdarthu'n ddigonol. Pan fydd y driniaeth wedi'i chwblhau, rhaid tynnu'r dysglau o asid allan yn ofalus a dylid awyru'r blychau yn drwyadl (am o leiaf ddeuddydd) cyn y gallant eu defnyddio eto. Wrth ddefnyddio'r system hon, **rhaid i chi wisgo dillad diogelu addas, diogelu eich llygaid a defnyddio menig rwber.**

Berwi mewn soda brwd (sodiwm hydrocsid)

Nid yw'r driniaeth hon yn ymarferol iawn i'r gwenynwr cyffredin oherwydd natur frwd y baddon a phroblemau o ran gwaredu'r hydoddiant ar ôl ei ddefnyddio. Mae angen bod yn ofalus dros ben. Ar gyfer y dull hwn, mae angen baddon o hydoddiant soda brwd, sy'n cynnwys 450 gram o sodiwm hydrocsid (sydd ar gael gan gyflenwyr cemegion) mewn 38 litr o ddŵr, ac yna rhaid ei godi i'r berw. Wedyn, caiff rhannau pren y cwch gwenyn eu trochi yn yr hydoddiant am gyfnod rhwng 5 a 15 munud, cyn eu dowcio mewn dŵr berw glân neu eu golchi â finegr i niwtraleiddio'r alcali. Ar ôl eu sychu, bydd angen ailhoelio'r rhannau, fwy na thebyg. Wrth ddefnyddio'r system hon, **rhaid i chi wisgo dillad diogelu addas, diogelu eich llygaid a defnyddio menig rwber.**


Trochi mewn cŵyr paraffin tawdd

Rhaid i gyfarpar wedi'i ddowcio mewn cŵyr paraffin gael ei wresogi i 160°C am 10 munud. Mae hon yn broses beryglus; a fflachbwynt cŵyr paraffin yw 199°C, felly rhaid cadw'r tymheredd ymhell o dan y lefel hon; **bydd angen i chi ddefnyddio cyfarpar arbenigol a gwisgo dillad diogelu cryf**, sef bethau nad yw'r gwenynwr cyffredin yn meddu arnynt. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch werslyfr wenyndda addas neu ymchwiliwch ar-lein.

Arbelydru

Gellir sterileiddio rhannau pren cwch gwenyn megis lloffydd mêl wedi'u storio a chrwybrau gwag, gan ddefnyddio pelydrau gama o radioisotop cobalt. Bydd hyn yn lladd organebau heintus heb ddifrodi'r cyfarpar. Noder: mae'n arbennig o bwysig sicrhau nad oes dim arwydd o glefyd, megis y cen sy'n gysylltiedig â chlefyd Americanaidd y gwenyn, ar unrhyw gyfarpar a gaiff y driniaeth hon. Y rheswm dros hyn yw bydd y symptomau yn parhau i edrych yn union yr un fath ag arwyddion o glefyd heintus heb ei drin pan gaiff y cwch gwenyn ei ddefnyddio eto, a all arwain at fethu rhoi diagnosis o haint newydd. Dim ond o dan arweiniad eich Arolygydd Gwenyn lleol y dylech ddefnyddio triniaeth arbelydru i sterileiddio cychod gwenyn ar ôl clefyd y gwenyn.

Ailgylchu fframiau pren



Hot water chamber

Hose pipe

Lid for brood box

Base / collection tray

Ffig. 5: cyfarpar glanhau â stêm

Mae stêm poeth yn effeithiol iawn am ymdoddi cŵyr oddi ar flychau a fframiau magu brwnt cyn eu hailddefnyddio. Ymhlith y cyfarpar mae ffynhonnell stêm, er enghraifft tynnwr paent domestig, piben ddyfrhau blastig, hambwrdd casglu a tho cwch gwenyn wedi'i addasu (Ffig. 5). Mae'r cyfarpar a ddisgrifi uchod ar gael ar-lein.

Dechreuwch drwy osod blwch yn llawn fframiau brwnt ar yr hambwrdd casglu pwrpasol, y bydd angen iddo fod yn debyg o ran maint a siâp i lawr cwch gwenyn, ond gydag agoriad bach ar un ymyl, a rhowch y caead arno. Rhowch un pen i biben ddyfrhau'r siambr stêm yn sownd ym mhen uchaf y blwch wedi'i selio. Wrth i'r cŵyr feddaldu ac ymdoddi, bydd yn llifo i lawr drwy'r blwch ac allan drwy'r agoriad yn yr hambwrdd, lle y gellir ei gasglu i'w roi i wasanaeth cyfnewid cŵyr (Ffig. 6). Gellir aildefnyddio'r fframiau pren wedi'u trin a'u glanhau. Dylech ganiatáu o leiaf awr i drin pob blwch o fframiau. Pan fydd y broses glanhau â stêm wedi'i chwblhau, gallwch sterileiddio'r fframiau gan ddefnyddio triniaeth soda golchi (gweler yr adran 'Glanhau gan ddefnyddio crisialau soda golchi' yn y daflen hon), cyn gosod sylfaen newydd.



Ffig. 6: casglu cŵyr poeth o echdynnwr stêm

Glanhau a diheintio cwch gwenyn plastig neu bolystyren

Mae cychod gwenyn plastig wedi cael eu defnyddio yn Ewrop ers o leiaf 30 mlynedd. Cyn eu sterileiddio, bydd angen glanhau cychod gwenyn plastig a'u rhannau yn ofalus, yn union fel y byddech yn achos cwch gwenyn pren – gweler y wybodaeth uchod. Pan fydd eich cwch gwenyn plastig yn lân, bydd yn barod i gael ei sterileiddio. Fodd bynnag, mae'r opsiynau sydd ar gael yn gyfyngedig o gymharu â'r amrywiaeth o driniaethau y gallwch eu defnyddio ar gychod gwenyn pren. Er enghraifft, byddai defnyddio lamp losgi yn amlwg yn amhosibl gan y byddai hyn yn ymdoddi'r cyfarpar, a byddai'r tymereddau sy'n gysylltiedig â thriniaeth cŵyr paraffin yn amhriodol hefyd. Mae gwneuthurwyr cychod gwenyn plastig poblogaidd yn argymhell mae'r opsiynau gorau sydd ar gael yw diheintyddion cemegol sy'n

cynnwys hypoclorit neu soda brwd, fel y disgrifir uchod ar gyfer sterileiddio cychod gwenyn pren. Dim ond cynhyrchion sy'n seiliedig ar hypoclorit a argymhellir ar gyfer clefyd Americanaidd y gwenyn (gweler Delio â chlefyd Ewropeaidd y gwenyn a chlefyd Americanaidd y gwenyn isod). Mae arbelydru gama yn effeithiol hefyd. Dylai unrhyw gyfrwng neu hydoddiant glanhau a thrin gael ei dreialu ar ran neu ardal fach er mwyn sicrhau na fydd yn achosi difrod.

Atalyddion brenhines

Bydd angen glanhau a sterileiddio atalyddion brenhines mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar y math a ddefnyddir. Dechreuwch drwy gael gwared ar weddillion drwy grafu ag offeryn addas (Ffig. 7). Mae'n haws cael gwared ar lud gwenyn mewn tywydd oer a gaeafol, gan y bydd glud gwenyn yn frau dan yr amodau hyn. Mae brwsh gwifrau yn ddefnyddiol iawn i gael gwared ar ddarnau o gŵyr a glud gwenyn. Wedyn, gellir llosgi atalyddion gan ddefnyddio lamp losgi ond, os ydynt wedi'u sodro, gofalu rhag ymdoddi'r sodradau gan y byddant yn aml yn 'feddal' iawn. Os oes clefyd y gwenyn wedi bod yn bresennol, rhaid dinistrio atalyddion â rhychau sinc drwy eu llosgi. Fel arall, gellir sgrwbio'r rhain yn lân â hydoddiant soda golchi. Bydd angen i'r hydoddiant fod yn grynodeg (1 cilogram o soda i 5 litr o ddŵr), a bydd ychwanegu diferyn o hylif golchi llestri at y cymysgedd yn helpu hefyd. Bydd angen i chi wisgo dillad diogelu addas, diogelu eich llygaid a defnyddio menig rwber. Gellir diheintio atalyddion plastig yn yr un modd â chychod gwenyn plastig a'u rhannu, fel y disgrifir uchod.



Ffig. 7: dylid tynnu crwybrau a gweddillion, a glanhau'r offeryn cwch gwenyn ar ôl ei ddefnyddio

Sut y dylwn drin cyfarpar arall?

Gellir glanhau offer cwch gwenyn mewn hydoddiant soda golchi – yn ddelfrydol rhwng pob cwch gwenyn. Gellir sgrwbio cyfarpar neu rannau plastig megis porthwyr a phennau fframiau plastig mewn hydoddiant soda golchi hefyd. Mae'n anodd glanhau y tu mewn i ddalennau plastig Correx penagored, felly mae'n syniad da selio pennau agored cyn eu

defnyddio. Nid yw hyn yn berthnasol i drapiau lloches ar gyfer monitro chwilen fach y cwch, y gellir eu dinistrio os bydd angen.

Glanhau dillad gwenyna

Mae'n anodd glanhau menig lledr felly mae'n well eu hosgoi. Os bydd yn rhaid i chi eu defnyddio, gwisgwch bâr o fenig untro tenau drostynt. Gellir golchi menig lledr mewn dŵr sebon ac mae sebonau menig pwrpasol ar gael. Fodd bynnag, mae menig lledr yn tueddu i fynd yn galed. Mae'n well defnyddio menig golchi llestri neu fenig untro tenau. Gellir glanhau'r rhain rhwng pob archwiliad o nythfa neu eu gwaredu a gwisgo pâr newydd, gan leihau'r risg o ledaenu heintiau. Os byddwch yn defnyddio esgidiau glaw, gellir eu sgrwbio mewn hydoddiant soda golchi fel y disgrifir uchod. Dylid cael gwared ar fwd, glud gwenyn a mêl oddi ar esgidiau eraill a'u rhwbio'n lân mewn ffordd addas. Dylid golchi oferôls yn rheolaidd yn y ffordd arferol. Bydd cymysgu ychydig bach o grisialau soda golchi â'r glanedydd yn helpu i gael gwared ar lud gwenyn. Sicrhewch y caiff cyflau tebyg i'r rhai ar wisgoedd cleddyfaeth eu troi i mewn ac y caiff pob sip ei gau er mwyn osgoi difrod. Ni ellir golchi hetiau na phenrwydi â chylchoedd metel ynddynt mewn peiriant.

Delio â chlefyd Ewropeaidd y gwenyn a chlefyd Americanaidd y gwenyn

Mae clefyd Ewropeaidd y gwenyn a chlefyd Americanaidd y gwenyn yn glefydau hysbysadwy. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn amau bod eich nythfeydd wedi'u heintio â'r naill glefyd neu'r llall, y bydd yn rhaid i chi roi gwybod i'r Uned Wenyn Genedlaethol (UWG) a fydd yn cadarnhau'r diagnosis. Gellir cael manylion am sut i wneud hyn ar wefan BeeBase yr UWG (www.nationalbeeunit.com). Hyd yn oed cyn i'r diagnosis gael ei gadarnhau, dylech gau'r cwch gwenyn a lleihau maint y fynedfa i faint un wenylen, a chymryd unrhyw gamau eraill angenrheidiol i atal y cwch gwenyn rhag cael ei ddwyn gan nythfeydd eraill yn yr ardal. Dylech ddiheintio menig a chyfarpar gwenyna arall gan ddefnyddio hydoddiant soda golchi cryf cyn archwilio nythfeydd eraill. Os caiff clefyd Americanaidd y gwenyn ei gadarnhau wedyn, bydd eich Arolygydd Gwenyn lleol yn llosgi nythfeydd sydd wedi'u heintio, a rhaid sterileiddio cychod gwenyn cyn eu haildefnyddio.



Ffig. 8: Ilosgi fframiau sydd wedi'u heintio â chlefyd y gwenyn

Dinistrio cyfarpar sy'n hen, wedi'i ddifrodi ac wedi'i heintio

Gellir llosgi cyfarpar pren mewn pydew â dyfnder o tua 45 cm (Ffig. 8), a rhaid gorchuddio'r pydew wedyn er mwyn atal mynediad at unrhyw fêl heb ei losgi. Fel unrhyw gynnyrch, bydd cychod gwenyn plastig yn mynd yn anefnyddiadwy o ganlyniad i ddifrod neu draul. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd angen eu gwaredu mewn modd diogel. Os na fydd y plastig wedi dod i gysylltiad â chlefydau heintus, mae'n bosibl y bydd modd ei ailgylchu. Gall eich awdurdod lleol roi cyngor i chi ar hyn, sy'n tueddu i amrywio yn dibynnu ar yr awdurdod a'r rhanbarth. Gellir gwaredu deunydd sydd heb ei heintio mewn safleoedd tirlenwi hefyd, ond mae'n bosibl na fydd hyn yn bosibl yn y dyfodol. Nid yw tirlenwi yn opsiwn ar gyfer deunydd heintus gan ei bod yn bosibl y bydd yn dal yn y golwg am gyfnod. Hefyd, pan ddaw i'r golwg yn y dyfodol, bydd yn bosibl iddo heintio gwenyn gerllaw. Ni ddylid llosgi plastigion, oni wneir hynny mewn ffatri arbenigol. Ceir rhai cwmnïau arbenigol sy'n gwaredu deunyddiau plastig sydd wedi'u heintio ond, fel arfer, bydd angen didoli plastigion yn ôl math cyn iddynt eu derbyn. Dylid cysylltu â nhw am ragor o wybodaeth.

BeeBase (www.nationalbeeunit.com) yw'r system TG soffistigedig sy'n cefnogi'r rhaglen iechyd gwenyn. Mae'n cynnwys cronfeydd data pwrpasol sy'n cynnwys galluoedd ym meysydd mapio, Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) a dadansoddi gofodol. Mae BeeBase yn cynnwys yr holl wybodaeth wenynyddol am y rhaglen iechyd gwenyn yng Nghymru a Lloegr. Hefyd, gellir cael gwybodaeth am weithgareddau'r UWG, deddfwriaeth, dulliau adnabod a rheoli plâu a chlefydau gwenyn mêl, mapiau rhyngweithiol, meysydd ymchwil cyfredol, a llawer o fanylion cyswllt defnyddiol. Mae'n adnodd hynod ddefnyddiol i lawer o wenywyr sy'n cydnabod rôl BeeBase yn y gymuned wenyna. Os byddwch yn cofrestru fel gwenynwr ar BeeBase, gallwch ofyn i'ch Arolygydd Gwenyn lleol ymweld â'ch

gwenynfa a rhoi cymorth a chyngor manwl i chi ar bob agwedd ar wenynd, gan gynnwys glanhau a sterileiddio cychod gwenyn.

National Bee Unit

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,

Sand Hutton, York YO41 1LZ

Ffôn: 03003030094 E-bost: nbu@apha.gov.uk

Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk